Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Craig y Parc

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  19/03/2018**

## Cyd-destun

Mae Craig y Parc yn ysgol ddydd annibynnol i ddisgyblion 3 i 19 oed. Mae wedi'i lleoli wrth ymyl cartref plant cofrestredig, Tŷ Cwtch, sy'n darparu gofal preswyl i 16 o bobl ifanc, gan gynnwys lleoliadau 52 wythnos a gofal seibiant. Ar hyn o bryd, mae 29 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys tri o ddisgyblion o'r cartref plant a 26 sy'n ddisgyblion dydd. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae tri o'r disgyblion yn blant sy'n derbyn gofal.

Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion ag amrywiaeth o anghenion corfforol cymhleth ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys parlys yr ymennydd, dysffagia, ac epilepsi.

Perchennog yr ysgol yw elusen Scope, sy'n cynnig gwasanaethau i bobl ifanc ac oedolion ag anghenion cymorth cymhleth. Caiff Scope ei reoli gan fwrdd ymddiriedolwyr. Mae gan yr ysgol fwrdd llywodraethwyr sy'n goruchwylio'i pherfformiad. Caiff y rhan fwyaf o'r disgyblion yn yr ysgol eu gosod yno gan awdurdodau yn ne Cymru. Caiff nifer bach iawn o ddisgyblion eu gosod yno gan awdurdodau yn Lloegr.

Mae'r pennaeth dros dro presennol wedi bod yn ei swydd am chwe mis.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

- Mae'r pennaeth dros dro wedi creu diwylliant ac ethos agored yn yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at awyrgylch digynnwrf a chefnogol yn yr ysgol, lle mae'r holl staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
- Mae bron pob un o'r staff yn ymddiddori'n dda yn y cyfleoedd hyfforddiant mae'r ysgol yn eu cynnig ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi croesawu'r cyfle i gyfrannu at gynllunio datblygiad yr ysgol.
- Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn cydweithio'n dda i gynnig amgylchedd dysgu anogol. Maent yn cyfathrebu'n dda mewn gwersi i sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu bodloni'n briodol.
- Mae'r holl staff yn defnyddio technoleg yn y dosbarth a thechnolegau cyfathrebu â chymorth yn dda iawn i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae hyn yn rhoi i ddisgyblion amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu, sydd wedi'u cynllunio'n dda i fodloni anghenion a diddordebau'r disgyblion.
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu dysgu. Maent yn ymateb yn brydlon i gyfarwyddiadau gan athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu ac yn ymwneud yn dda â staff a'i gilydd.

## Meysydd i'w datblygu

- Nid yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn.
- Mae'r ysgol wedi gwella prosesau i asesu mannau cychwyn disgyblion a chofnodi eu cynnydd. Ar y cyfan, fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r defnydd ar ddata.
- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol sy'n cynnwys meysydd clir i'w datblygu. Yn gynnar iawn, amlygodd y pennaeth dros dro'r camau pwysig sy'n angenrheidiol i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r broses ar gyfer hunanarfarnu. Nid yw cynllun datblygu'r ysgol yn blaenoriaethu'r meysydd i'w datblygu yn ddigonol nac yn cynnwys y camau bychain y mae eu hangen i fonitro'u cyflawni.
- Caiff arsylwadau ystafell ddosbarth a theithiau dysgu eu cynllunio'n briodol ar hyd y flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor dda caiff y rhain eu defnyddio i lywio gwelliannau mewn addysgu na safonau cyflawniad disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Sicrhau bod prosesau casglu data'n ddigon trylwyr i fesur cynnydd a chyflawniadau disgyblion yn llawn

A3 Gwella hunanasesu ar draws yr ysgol i lywio cynllunio ar gyfer gwella

A4 Sicrhau bod arsylwadau ystafelloedd dosbarth yn canolbwyntio ar safonau disgyblion ac ansawdd addysgu

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Rhoi system gwybodaeth reoli effeithiol ar waith i alluogi staff i fonitro, cofnodi ac arfarnu camau bach yng nghynnydd disgyblion yn fwy effeithiol i lywio eu cynllunio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth am gamau bach mewn dysgu disgyblion, gan ei defnyddio'n dda i fesur cynnydd dysgwyr yn ôl targedau yn eu CAUau. Mae hyn yn ogystal â chasglu gwybodaeth am gynnydd disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gwella trefniadau i nodi a chofnodi mannau cychwyn disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r defnydd ar yr ystod hon o wybodaeth i lywio cynllunio.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad haws ac annibynnol i ystafelloedd dosbarth mewn cadeiriau olwyn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae platiau wedi'u gosod ar ddrysau ar hyd a lled yr ysgol sy'n galluogi drysau i aros ar agor. Mae hyn wedi gwella mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Fodd bynnag, mae system y drysau agored yn atal disgyblion rhag dewis agor y drysau eu hunain. Mae hyn yn creu cyfle coll i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl ac annibyniaeth.

**Argymhelliad 3: Parhau i ddatblygu'r broses hunanarfarnu gyda ffocws ar addysgu a dysgu, a sicrhau ei bod yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer datblygu'r ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae ffocws clir yng nghynllun datblygu'r ysgol ar wella addysgu a dysgu. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r broses ar gyfer hunanarfarnu.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Lunio polisi ysgrifenedig ar y cwricwlwm, wedi'i ategu gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i weithredu'n effeithiol. [1(2)]
- Darparu addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd sy'n adlewyrchu nodau ac hethos yr ysgol. [1(2)(f)]

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig ynghylch iechyd a diogelwch disgyblion ar weithgareddau'r tu allan i'r ysgol, sy'n ystyried arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru. [3(2)(c)]
- Cynnal cofrestr derbyniadau yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 [3(9)]

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod darpariaeth, os na fydd rhieni'n fodlon â'r ymateb i gŵyn ysgrifenedig, ar gyfer sefydlu gwrandawiad gerbron panel a benodwyd gan y

perchennog, sy’n cynnwys o leiaf dri o bobl nad oeddent wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r materion mae’r gŵyn yn ymwneud â nhw. [7(f)]

- Sicrhau bod o leiaf un aelod o’r panel, pan fydd panel yn cynnal gwrandawiad ynghylch cwyn, yn annibynnol ar reoli a chynnal yr ysgol [7(g)]
- Caniatáu i rieni ddod â chwmni gyda nhw i wrandawiad y panel, os byddant yn dymuno hynny [7(h)]
- Sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cynnwys darpariaeth sy’n caniatáu i’r panel lunio canfyddiadau ac argymhellion, a bod y weithdrefn yn datgan y dylai’r achwynydd, y perchenogion a’r penaethiaid, a, lle y bo’n berthnasol, y sawl y gwnaed y gŵyn amdano, yn cael copi o unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion [7(i)]

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Craig y Parc |
| **Rhif yr ysgol** | 6816087 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 15/01/2018 |
| **Perchennog** | Scope |
| **Staff** | 8 athro, 35 cynorthwyydd cymorth dysgu, 2 ffisiotherapydd, 2 therapydd iaith a lleferydd, 2 therapydd galwedigaethol, 3 thechnegydd therapi, 2 nyrs, 8 staff ategol, 6 staff swyddfa, 3 staff cynnal a chadw |
| **Nifer y disgyblion** | 29 |
| **Darpariaeth** | Dydd/preswyl a phreswyl 52 wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Parlys yr Ymennydd, Awtistiaeth, Epilepsi ac anawsterau dysgu cysylltiedig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/02/2015 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 13/11/2017 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 09/10/2017 |